CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Llandysul, ar 9fed Mawrth 2020**

**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Llandysul Youth Centre, on 9th March 2020**

**Yn Bresennol/Present**:
Cyng/Cllrs Tom Cowcher, Douglas Davies, Keith Evans, Andrew Howell, Gethin Jones, Sue Lloyd

**Personol / Personal**

1. **Ymddiheuriadau/Apologies** Cafwyd ymddiheuriadau gan /Apologies for absence were received from Eileen Curry,Beth Davies, Mike Hotson, Abby Reid, Peter Davies a/and Llŷr Jones.

2. **Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest** Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau. / No declarations of interest were shown.
3. **Cofnodion/Minutes** Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 10 Chwefror. Cymeradwywyd y cofnodion ar ôl newid y ffaith bod rhif 7 wedi ymddangos ar yr holl dudalennau. / Minutes of monthly meeting held on 10 February were approved. The minutes of were approved following changing that the no 7 had appeared on all the pages.

**Personol / Personal**

Roedd y clerc wedi cael llythyr gan Gyng Abby Reid yn hysbysu'r Cyngor y byddai hi'n ymddiswyddo fel Cynghorydd o'r cyfarfod ym mis Ebrill o ganlyniad i afiechyd. Diolchodd i'r Cyngor am y gefnogaeth ac roedd yn dymuno'n dda iddynt yn y dyfodol. Penderfynwyd derbyn ei hymddiswyddiad, a bydd y clerc yn anfon llythyr ati i ddiolch iddi am ei holl waith caled i'r Cyngor.

A letter had been received by clerk from Cllr Abby Reid informing the Council that she would be resigning as Cllr as from the April meeting due to ill health. She thanked the Council for the support and wished them well for the future. It was decided to accept her resignation the clerk to write a letter thanking her for all her hard work for the Council.

**Materion yn Codi:-**

**Cyfarfod mis Tachwedd**

**Goleuadau ger y Pwll Nofio**

Roedd y Clerc wedi cael cadarnhad o'r archeb gan SSE ond nid oedd wedi cael cadarnhad ynghylch pryd y byddai'r gwaith yn cael ei wneud.

**Penwythnos garddio**

Cynhaliwyd y Penwythnos Garddio ac adroddodd y Cynghorwyr y bu'n ddigwyddiad llwyddiannus iawn a fynychwyd gan nifer dda o bobl.

**Goryrru**

Bydd y clerc yn cysylltu â'r Heddlu i weld a fyddai modd iddynt wneud rhywbeth ynghylch y goryrru cyson gan bobl sy'n dod i mewn ar hyd Stryd Cambrian.

**Padlwyr Llandysul**

Roedd y Padlwyr wedi prynu bws mini newydd. Byddai llun yn cael ei dynnu nos Fercher a fyddai'n cynnwys pawb a fu'n ymwneud â'r ymdrechion i'w phrynu.

**Cofeb Ryfel Capel Dewi**

Roedd y Clerc wedi cysylltu ag Elliott Ryder Conservation ynghylch adnewyddu'r gofeb ryfel yng Nghapel Dewi. Ni chafwyd dyddiad er mwyn cwblhau'r gwaith eto.

**Diffibrilwyr**

Mae'r gwaith i lunio rhestr o bobl/cymdeithasau/clybiau sy'n gyfrifol am y diffibrilwyr wedi cychwyn.

**Materion y mae Gofyn Gwneud Penderfyniad amdanynt**

**4) Ceisiadau Ariannol:-**

**Eisteddfod Rhydlewis** – Cafwyd cais am £100 gan Eisteddfod Rhydlewis er mwyn helpu i dalu am y gwaith o redeg yr Eisteddfod. Penderfynwyd rhoi'r swm y gofynnwyd amdano.

**Capel Llwynrhydowen** – Gofynnwyd am y swm o £3000 er mwyn cynorthwyo i wneud gwaith trwsio brys i'r festri, sy'n cynnwys disodli ffenestri, estyll ffasgia, cafnau ac ailbaentio. Penderfynwyd rhoi'r swm y gofynnwyd amdano.

Cafwyd cais am rodd gan HAVHAV. Bydd y clerc yn anfon y ffurflen gais berthnasol atynt.

**5) Materion i'w Trafod**

**Matters Arising:-**

**November Meeting**

**Lights by Swimming Pool**

The Clerk had had confirmation of the order from SSE but yet to confirm when the work would be done.

**Gardening weekend**

The Gardening Weekend had been held and Councillors reported that it was a very successful and well attended event.

**Speed**

The clerk to contact the Police to see if they could do anything with regards to the constant speeding coming in on Cambrian Street.

**Llandysul Paddlers**

A new mini bus had been purchased in The Paddlers. A picture would be taken on Wednesday evening to all involved with the purchase.

**War Memorial Capel Dewi**

The Clerk had contacted Elliott Ryder Conservation for preservation of the war memorial at Capel Dewi . A date for completing the work had not yet been received.

**Defibrillators**

Work with compyling a list of people/associations/clubs responsible for the defibrillators is underway.

**Matters Requiring Decisions**

**4) Funding Applications:-**

**Rhydlewis Eisteddfod** – A request was received from Rhydlewis Eisteddfod asking for £100 to help with running the Eisteddfod. It was decided to donate the requested amount.

**Llwynrhydowen Chapel** – A request for £3000 was asked for in order to assist with urgent repais to vestry which include replacing windows, facia boards, guttering and re-painting. It was decided to donate the requested amount.

A request for a donation was received from HAVHAV. The clerk to send on the relevant application form.

**<u>Lle Chwarae Parc Llandysul</u>**

Gan nad oedd Cyng Abby Reid yn bresennol yn y cyfarfod, nid oedd unrhyw ddatblygiadau pellach i'w hadrodd.

**<u>Sedd Wag</u>**

Roedd y clerc wedi cael un llythyr yn mynegi diddordeb yn y Sedd Wag gan gyn Gynghorydd Roy Davies. Penderfynwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu ato yn diolch iddo am fod yn fodlon dychwelyd fel Cynghorydd, a'i wahodd i'r cyfarfod nesaf.

**<u>Cynllun Llifogydd</u>**

Roedd yr holl Gynghorwyr wedi cael copi Electronig o'r Cynllun Llifogydd a baratowyd gan Gyng Abby Reid. Penderfynwyd y byddai Cyng Keith Evans yn ystyried y cynllun yn fanylach oherwydd y byddai angen i ni ei rannu gyda'r Cyngor Sir, oherwydd y byddai angen sicrhau caniatâd i ddefnyddio safleoedd ac ati.

**Materion Wardiau**

**Llandysul**

Hysbyswyd yr holl Gynghorwyr gan Gyng Keith Evans bod estyniad wedi cael ei roi yn dilyn y cyfarfod ynghylch CDLl, er mwyn i bobl allu cynnig mwy o safleoedd ymgeisiol.

Adroddodd hefyd nad oes dau olau yn gweithio, un ar ben Stryd y Ffynnon a'r llall yn y maes parcio. Bydd y clerc yn adrodd i'r Cyngor Sir am y rhain.

Roedd y cynghorwyr yn dymuno llongyfarch y gwirfoddolwyr am redeg y Lyfrgell yn Llandysul dros y 2 flynedd ddiwethaf.

Yn ogystal, atgoffodd Cyng Keith Evans yr holl gynghorwyr o'r grant sydd ar gael er mwyn galluogi busnesau i ehangu. Mae cyllid o hyd at 60% ar gael. Am ragor o wybodaeth, dylai pobl gysylltu â Gareth Rowlands.

Esboniodd Cyng Keith Evans hefyd bod y Prif Weinidog yn helpu pobl yr oeddent wedi dioddef

**5) Matters for Discussion**

**<u>Llandysul Park Play area</u>**

As Cllr Abby Reid was not present not present at the meeting there were no further developments to be reported on.

**<u>Casual Vacancy</u>**

One letter had been received by the clerk showing an interest in the Casual Vacancy from former Cllr Roy Davies. It was decided that Clerk write to him thanking him for willing to return as Cllr and invite him to the next meeting.

**<u>Flood Plan</u>**

An Electronic copy of the Flood Plan prepared by Cllr Abby Reid had been received by all Councillors. It was decided that Cllr Keith Evans would look at the plan in greater detail as we would need to share it with the County Council as a lot of permissions for use of premises etc would be needed.

**Ward Matters**

**Llandysul**

Cllr Keith Evans informed all Cllrs that following the LDP meeting that there had been an extension for people to feed more candidate space.

He also reported that two street lights were not working one at the top of Well Street and the other in the car park. The clerk to report to the County Council.

Councillors wished to congratulate the volunteers on the success of running the Library in Llandysul for the past 2 years.

Cllr Keith Evans also reminded all Cllr of the grant available for businesses to expand.

colledion yn ystod y llifogydd diweddaraf a welwyd yn Ne Cymru. Nid oes unrhyw beth i helpu pobl Llanrwst neu Llandysul a Phontweli a oedd wedi dioddef colledion sylweddol hefyd o ganlyniad i lifogydd. Bydd y clerc yn ysgrifennu at ein AC lleol, Elin Jones, ac at yr AS, Ben Lake.

Adroddwyd hefyd y bydd Dolen Teifi yn cael tri Cherbyd Trydan.

**Capel Dewi**

Adroddodd Cyng Douglas Davies y bu tirlithriad arall yng Nghapel Dewi. Canmolodd y Cyngor Sir am glirio'r ffordd yn gyflym, ond mae'n erfyn ar y Cyngor Sir i wneud rhywbeth am y sefyllfa ar gyfer y tymor hir, gan ei fod yn parhau i ddigwydd, cyn i rywun gael dolur.

Yn ogystal, gofynnodd Cyng Douglas Davies a fyddai modd i'r clerc ysgrifennu at y Cyngor Sir i ofyn a fyddai modd symud y terfyn cyflymder yn Heol y Waun Capel Dewi o dŷ o'r enw Llain Isaf, gan bod y terfyn cyflymder wedi'i leoli y tu mewn i'w waliau.

**Pont-siân**

Penderfynwyd y dylai'r clerc anfon llythyr i longyfarch Ffermwyr Ifanc Pont-siân am ennill y gystadleuaeth Ddrama ar draws Ceredigion ac ar draws Cymru.

6) **Cydnabod derbyn rhodd**
**Er Gwybodaeth**

Cyflwynwyd y negeseuon e-bost a gafwyd rhwng 8 Chwefror a 9 Mawrth 2020.
Cafwyd y canlynol gan

**ULlC/SLCC/ Clerks and Councils Direct**
Cafwyd Cylchgrawn The Clerk a Clerk and Councils Direct.

**Ambiwlans Awyr**

Cafwyd Adolygiad Blynyddol Ebrill 2018 – Mawrth 2019 ac fe'i nodwyd.
**CThEM**

There is up to 60% funding available. For more information people should contact Gareth Rowlands.

Cllr Keith Evans also explained that the First Minister was helping people that had resulted in loss following the latest floods in South Wales. There is nothing to help the people of Llanrwst or Llandysul and Pontweli that also lost a considerable amount due to flooding. The clerk to write to our Local AM Elin Jones and MP Ben Lake.

It was aslo reported that three Electic Vehicles was coming to Dolen Teifi.

**Capel Dewi**

Cllr Douglas Davies reported another landslide in Capel Dewi. He praised th**e** County Council for clearing the road quickly but is urging the County Council to do something with a long term fix as it keeps happening before someone gets hurt.

Cllr Douglas Davies also asked the clerk to write to the County Council asking if it was possible to move the speedlimit in Heol y Waun Capel Dewi from a house named Llain Isaf as the speed limit is situated inside their walls.

**Pontsian**

It was decided that the clerk send a letter congratulation Pontian Young Farmers in winning the Drama competition in Ceredigion and Wales.

6) **Acknowledge receipt of donation**
**For Information**

Emails received from 8th February – 9th March 2020 was tabled.
The following were received from

**OVW/SLCC/ Clerks and Councils Direct**
The Clerk Magazine and Clerk and

Cafwyd y llyfr talu i mewn ac amlenni gan CThEM ar gyfer cyflog y clerc.

**Glasdson**
Cafwyd catalog ac fe'i nodwyd.

**7 Cynllunio**:

Cafwyd hysbysiad o Gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiad a gynhelir ar 11 Mawrth 2020.

Cefnogwyd y cynlluniau canlynol gan y Cyngor Cymuned, ac ni wnaethpwyd unrhyw wrthwynebiadau iddynt:-
A200138 - Craig Y Deri Ffordd Pren-gwyn, Pren-gwyn, Llandysul, SA44 4LR
A200117 – Tir y tu ôl i Gilfach Aur, Horeb, Llandysul, SA44 4JE
A200100 - Montana, Brynllethi Heol y Graig, Llandysul,
A200134 Tir yng Nghilgraig, Capel Dewi, Llandysul

**Cyfarfod**
Cynhelir Cyfarfod mis Ebrill y Cyngor Cymuned ar 20/04/2020 oherwydd y bydd hi'n Llun y Pasg ar 13/04/2020.

8) Gwybodaeth Ariannol

**Anfonebau:-**

Un Llais Cymru – Cafwyd anfoneb am y swm o £455 ar gyfer aelodaeth 2020/21 a derbyniwyd y dylid ei thalu.

Llinos Jones – Cafwyd anfoneb am y swm o £157 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Chwefror a derbyniwyd y dylid ei thalu.

Solutions Factory – Cafwyd anfoneb am gynnal y wefan rhwng 01/03/20 a 28/02/2021 a derbyniwyd y dylid ei thalu.

Councils Direct was received.

**Air Ambulance**

Annual Review from April 2018-March 2019 was received and noted.

**HMRC**
The paying in book and envelopes was received from the HMRC for the clerks wages.

**Glasdson**
Catalogue was received and noted.

**7 Planning**:

Notice of the Development Control Committee Meeting to be held on 11th March 2020 was received.

The following plans were supported by the Community Council and there were no objections:-
A200138 - Craig Y Deri Prengwyn Road, Prengwyn, Llandysul, SA44 4LR
A200117 - Land to rear of Gilfach Aur, Horeb, Llandysul, SA44 4JE
A200100 - Montana, Brynllethi Graig Road, Llandysul,
A200134 Land at Cilgraig, Capel Dewi, Llandysul

**Meeting**
The April Meeting of the Community Council would be held on 20/04/2020 as the 13/04/2020 would be Easter Monday.

8) Financial Information

**Invoices:-**

One Voice Wales – Invoice for £455 was received for 2020/21 membership and passed for payment.

Llinos Jones – Invoice for February translation services for £157 was received and passed for payment.

Solutions Factory - Invoice was received for hosting the website from 01/03/20 to 28/02/2021 and passed for payment.

**Arwyddo Sieciau/Signing of Cheques:**

Gorchmynnwyd ac i’w tynnu gan y Trysorydd/
Ordered and same are hereby drawn on the Treasurer:-

| | | £ c/£ p | |
|---|---|---|---|
| Rhydlewis Eisteddfod | Rhodd/Donation | 100.00 | 000842 |
| Capel Llwynrhydowen | Rhodd/Donation | 3000.00 | 000843 |
| Llinos Jones | Cyfieithu/Translating | 157.00 | 000844 |
| Solutions Factory | Website/Gwefan | 144.00 | 000845 |
| Abacus Cleaning | Cynnal a Chadw/Maintenance | 213.75 | 000846 |
| Nia Davies | Cyflog y Clerc/Clerk Wages | 455.87 | 000847 |
| Nia Davies | HMRC | 113.96 | 000848 |
| Nia Davies | Rhyngrwyd/Broadband | 39.00 | 000849 |
| Un llais Cymru | Aelodaeth/Membership | 455.00 | 000850 |